# Pennaeth Partneriaethau Strategol

## Partneriaeth Actif Canolbarth y De

**Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr**

Dyddiad Cau: Hanner nos Dydd Mercher 11 Chwefror

Dyddiad Cyfweld: Wythnos yn dechrau 23 Chwefror a 2 Mawrth



acorn by SYNERGIE

CENTRAL SOUTH ACTIVE PARTNERSHIP | PARTNERIAETH ACTIF CANOLBARTH Y DE

# Am Bartneriaeth Actif Canolbarth y De

Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD) yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Beth yw'r weledigaeth a'r genhadaeth?**

Drwy weithio mewn partneriaeth, rydym wedi ymrwymo i gael mwy o bobl i ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae arnom eisiau adeiladu ar lwyddiant ac archwilio syniadau newydd er mwyn creu newid sylweddol yn iechyd a llesiant ein cymunedau lleol drwy gydweithio ar draws y rhanbarth, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lefelau gweithgarwch gyda'n gilydd.


**Beth yw ein hamcanion strategol?**

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn diffinio amcanion strategol wrth i ni ddatblygu ein strategaeth. Yn y cyfamser rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu:

- Cymdeithasau Egnïol – Normau Cymdeithasol ac Agweddau
- Amgylcheddau Egnïol – Mannau a Lleoedd
- Pobl Egnïol – Rhaglenni a Chyfleoedd
- Systemau Egnïol – Llywodraethiant a Galluogwyr Polisi

**Pam gweithio i PACD?**

Byddwch yn ymuno â'r tîm ar ddechrau antur cyffrous i greu effaith barhaol. Byddwch yn helpu i ddatblygu atebion o'r gwaelod i fyny, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr, y bwrdd a phartneriaid. Mae'r rôl yn cynnig amgylchedd gwaith dynamig a hyblyg, cyflog cystadleuol, pensiwn cyfrannol, gwyliau blynyddol hael a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.



# Am y Rôl:



**Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De (PACD) yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd a Bro Morgannwg.**

Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rhan hollbwysig yng gweithrediadau PACD. Byddwch yn ymuno â thîm bach ond uchelgeisiol, ac yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r Rheolwr Gyfarwyddwr.

Bydd y Pennaeth Partneriaethau Strategol yn hybu cydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, a rhyngddynt, er mwyn ymwreiddio dull seiliedig ar systemau o gynyddu chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn cymunedau. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar adnabod, cysylltu, dylanwadu a chefnogi partneriaid i greu newid sylweddol yn iechyd a llesiant ein cymunedau lleol drwy gydweithio ar draws y rhanbarth, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lefelau gweithgarwch gyda'n gilydd.

Mae'r rôl hon yn cynnig amgylchedd gwaith dynamig a hyblyg â chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.

**Pwrpas:**

Bydd y Pennaeth Partneriaethau Strategol yn hybu cydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, a rhyngddynt, er mwyn ymwreiddio dull seiliedig ar systemau o gynyddu chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn cymunedau. Bydd y rôl yn canolbwyntio ar adnabod, cysylltu, dylanwadu a chefnogi partneriaid i greu newid sylweddol yn iechyd a llesiant ein cymunedau lleol drwy gydweithio ar draws y rhanbarth, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella lefelau gweithgarwch gyda'n gilydd.

© Acorn by Synergie

# Rolau a Chyfrifoldebau

**Arweinyddiaeth Strategol**

- Arwain a hyrwyddo dulliau o feddwl drwy systemau sy'n gydnaws â fframweithiau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynrychioli'r sefydliad mewn rhwydweithiau allweddol.
- Meithrin cydweithio ar draws sectorau, gwelliant parhaus a rhannu'r defnydd o adnoddau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf gyda'n gilydd.
- Cynorthwyo partneriaid i ddylunio a gweithredu cynlluniau sy'n cyfrannu tuag at newid hirdymor ar lefel poblogaeth.
- Nodi ac adeiladu partneriaethau newydd mewn amgylchedd amlsector.

**Creu Cymdeithasau Egnïol**

- Hyrwyddo agweddau diwylliannol cadarnhaol tuag at chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gyfathrebu cynhwysol, ymgyrchoedd a dealltwriaeth a rennir.

**Creu Amgylcheddau Egnïol**

- Cydweithio â phartneriaid er mwyn dylunio ac eiriol dros fannau sy'n integreiddio gweithgarwch corfforol ym mywyd bob dydd pobl, mewn amgylcheddau adeiledig a naturiol.

**Creu Pobl Egnïol**

- Annog dulliau gweithredu sy'n meithrin hyder pobl, sgiliau a chyfleoedd i fod yn egnïol, gan sicrhau bod rhaglenni'n ymateb i fewnwelediad a lleihau anghydraddoldebau.

**Creu Systemau Egnïol**

- Cryfhau arweinyddiaeth ar draws systemau, cydweithio a dysgu drwy gefnogi defnydd o ddata a rennir, dulliau gweithredu wedi'u cydlynu a modelau buddsoddi cynaliadwy.

**Cyflawni Gweithredol**

- Dod ag arweinwyr o wahanol sectorau at ei gilydd a sicrhau cyfleoedd i ddysgu, datblygu adroddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a goruchwylio gwaith monitro a gwerthuso fel sail i arferion yn y dyfodol.



© Acorn by Synergie

# Manyleb y Person



**Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad, gwybodaeth a sgiliau yn y meysydd a ganlyn:**

**Hanfodol**

- Profiad o adeiladu perthnasoedd cryf, dylanwadu ar randdeiliaid a meithrin cydweithio.
- Profiad o ddefnyddio ymchwil a mewnwelediad i ddatblygu cyfeiriad strategol a dylanwadu ar newid.
- Profiad o weithio gyda fframweithiau mesur effaith.
- Profiad o arwain prosiectau cymhleth.
- Sgiliau trefnu, arwain a chyfathrebu ynghyd â'r gallu i ysbrydoli a dylanwadu ar bobl eraill.
- Y gallu i flaenoriaethu tasgau, addasu a rheoli amser yn effeithiol er mwyn cwblhau gwaith cyn nifer o derfynau amser.
- Yn gyfarwydd ac yn gwbl ymrwymedig i egwyddorion ac arferion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n hybu gweithgarwch corfforol a'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan.
- Hyddysg mewn systemau TG.

**Dymunol**

- Dealltwriaeth o'r dirwedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru a'r fframwaith polisi cysylltiedig.
- Profiad o waith arweinyddiaeth a phartneriaeth sy'n gysylltiedig â systemau mewn amgylchedd amlsector.
- Y gallu i siarad / cyfathrebu yn y Gymraeg a deall logisteg gweithio'n ddwyieithog.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

**Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant**

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn dathlu amrywiaeth yn ei holl ffurfiau ac rydym wedi ymrwymo i greu gweithle cynhwysol lle gall pawb ffynnu.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, yn enwedig pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n dod â phrofiad personol ac yn gwerthfawrogi'r mewnwelediad y mae hyn yn ei gynnig.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch. Anogir ymgeiswyr sydd angen addasiadau ar unrhyw adeg i roi gwybod i ni fel bod modd gwneud trefniadau priodol.

© Acorn by Synergie

# Gwybodaeth Bellach

**Lleoliad**

Gweithio o Bell (Rhanbarth Canolbarth y De).

Bydd deiliad y swydd yn mabwysiadu trefniadau gwaith ystwyth a hybrid yn unol ag anghenion y busnes, rhwng y cartref ac mewn swyddfeydd dynodedig.

**Teithio**

Teithio yn rhanbarth Canolbarth y De ac i'r Gogledd yn achlysurol (lle bo'n ofynnol).

**Oriau Gwaith**

Amser llawn, 35 awr yr wythnos, oriau gwaith hyblyg.

**Yn Adrodd i'r:**

Rheolwr Gyfarwyddwr

**Cyflog:**

Cyflog £50,000 - £58,000 (i'w drafod, gan ddibynnu ar brofiad). Pensiwn cyfrannol, 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc, a buddion eraill.



© Acorn by Synergie

# Proses Recriwtio



Os hoffech chi drafod y rôl cyn cyflwyno cais, cysylltwch â Luke Robért i ddechrau, a fydd yn fwy na pharod i helpu

**Luke Robért**

luke.robert@acornbysynergie.com
07551 353 260

## Hysbysiad Preifatrwydd

Drwy gyflwyno eich cais, rydych yn cytuno y caiff Acorn by Synergie brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio. Rydym wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac rydym yn edrych ymlaen at ystyried eich cais chi.

Diolch am ddangos diddordeb mewn cyfrannu tuag at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De.
Pob lwc â'ch cais.

## Gwnewch gais ar-lein a bydd ymgynghorydd o Acorn mewn cysylltiad i ddweud mwy wrthych chi ac i drafod y camau nesaf.

## Cofiwch, fel rhan o'ch cais, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol:

1. CV wedi'i ddiweddaru
2. Datganiad ategol (dim mwy nag un dudalen) yn amlinellu pam rydych yn dymuno ymuno â'r bartneriaeth a pham rydych yn ymgeisydd credadwy, gan gyfeirio at fanyleb y person.

**Dyddiadau allweddol**

Dyddiad Cau: Hanner nos 11 Chwefror 2026.

**Dyddiad Cyfweld:**

Cam 1: Wythnos yn dechrau 23 Chwefror 2026.

Cam 2: Wythnos yn dechrau 2 Mawrth 2026.

© Acorn by Synergie